
# Y Plasty

HEOL RICHMOND, CAERDYDD CF24 3UN

Eiddo Unigryw, Hanesyddol Ar Werth






## PRIF UCHAFBWYNTIAU

- Adeilad rhestredig Gradd II unigryw, hanesyddol.
- Byddai'n addas ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau amgen sy'n amodol ar gynllunio.
- Lleoliad canolog o fewn pellter cerdded i Ganol Dinas Caerdydd.
- Safle hunangynhwysol o 0.83 erw.
- Gwahoddir cynigion diamod.
- Wedi'i drwyddedu ar gyfer seremonïau sifil a phriodasau.

## SAFLE A LLEOLIAD

Mae maint yr eiddo sydd ar werth wedi ei amlinellu'n goch ar gynllun y safle ac mae'n ymestyn i oddeutu 0.83 erw (0.34 ha).

Mae'r Plasty tua'r gogledd-ddwyrain o ganol dinas Caerdydd, ar gyffordd Heol Richmond, Richmond Crescent a Llwyn y Gorllewin. Mae'n ffinio â'r ffyrdd hyn i'r de a'r gorllewin, i'r gogledd gan Neuadd Gordon, bloc o lety myfyrwyr, ac i'r dwyrain gan eiddo preswyl.

Mae mewn lleoliad da ar gyfer mynediad i amwynderau canol dinas Caerdydd, ac mae o fewn hanner milltir ar droed i ardal siopa boblogaidd Heol y Frenhines a gorsaf drenau Heol y Frenhines Caerdydd. Mae gorsaf drenau Caerdydd Canolog tua 1 filltir ar droed, gyda gwasanaethau i Lundain Paddington, Bryste, Birmingham, Manceinion a Gorllewin Cymru. Mae Prifysgol Caerdydd ac atyniadau poblogaidd i dwristiaid Castell Caerdydd a Stadiwm Principality hefyd o fewn tua 1 milltir.

Mae'r Plasty i'r de o Cathays a'r Rhath, dwy faestref sy'n boblogaidd gyda myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r ardal gyfagos yn cynnwys filas Fictoraidd deniadol ar Heol Richmond, y mae llawer ohonynt wedi'u haddasu'n fflatiau neu at ddefnyddiau masnachol.

## Caerdydd

Caerdydd yw prifddinas Cymru. Amcangyfrifir bod ganddi boblogaeth o oddeutu 346,000, a phoblogaeth fwy o 1.1 miliwn yn ardal fetropolitan Caerdydd a Chymoedd De Cymru.

Mae Caerdydd ymysg y dinasoedd mwyaf deniadol, llwyddiannus a mwyaf diwylliannol yn y DU. Mae gan Gaerdydd gyfran uchel o bobl oedran gweithio (65%) ac mae wedi profi twf poblogaeth o 12% dros y degawd diwethaf. Rhagwelir y bydd hyn yn tyfu 26% arall dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae llwyddiant y ddinas yn seiliedig ar ei heconomi gref, ei lefel uchel o dwristiaeth a'i statws fel prifddinas. Mae Caerdydd yn profi 21.3m o ymweliadau gan dwristiaid y flwyddyn.

Y sectorau mwyaf ar gyfer twf cyflogaeth dros y degawd diwethaf fu weithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd.

Penderfynwyd bod Caerdydd yn un o'r dinasoedd gorau yn y DU ar gyfer twf busnes, gyda chyfran uwch o gwmnïau gasél nag unrhyw ddinas arall yn y DU.

Gellir cael mynediad i Gaerdydd trwy 3 cyffordd oddi ar yr M4. Mae Maes Awyr Caerdydd 11 milltir tua'r gorllewin o ganol y ddinas.



# HANES

Wedi'i gwblhau ym 1896 gan James Howell, sylfaenydd siop adrannol Howells o'r un enw, adeiladwyd y Plasty yn wreiddiol fel cartref teuluol.

Fe'i prynwyd gan Gorfforaeth Caerdydd ym 1913, a gwasanaethodd yn barhaus fel cartref Arglwydd Faer y ddinas hyd at 1971, ac ar ôl hynny ni ddefnyddiwyd ef yn rheolaidd. Yn ystod y cyfnod hwn roedd fflatiau preifat yr Arglwydd Faer ar y llawr cyntaf, ochr yn ochr â phedair ystafell wely en-suite. Mae'r rhain wedi croesawu nifer o ymwelwyr nodedig, gan gynnwys y Brenin Siôr V, Winston Churchill a Nelson Mandela, ac wedi gwasanaethu fel y llety a ffefrir yn y ddinas i'r Brenin Siarl III yn ystod ei gyfnod fel Tywysog Cymru.

Gwnaed gwaith adfer sylweddol i'r eiddo ym 1998 er mwyn cynnal Cyngor Ewropeaidd Caerdydd, ac ar ôl hynny mae Cyngor Caerdydd wedi gweithredu'r Plasty fel lleoliad dinesig, gan gynnal digwyddiadau ar ran yr Arglwydd Faer, yn ogystal â digwyddiadau swyddogol fel seremonïau dinasyddiaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae'r eiddo wedi'i drwyddedu ar gyfer seremonïau sifil a phriodasau.

# DISGRIFIAD

Mae'r Plasty yn adeilad rhestredig Gradd II, ac wedi'i gynllunio mewn arddull glasurol rydd. Mae wedi'i drefnu dros dri llawr ac islawr. Mae'r tŷ wedi'i adeiladu o dywodfaen Pennant wyneb craig, gyda naddiadau carreg nadd ysgafnach o dan do llechi gyda thri dormer.

At ei gilydd, mae'r tŷ yn cwmpasu tua 16,445 troedfedd sgwâr (1,528 metr sgwâr).

Mae'r Plasty ar dir o oddeutu 0.83 erw, ac mae mynediad iddo drwy ddwy giât drydan i'r blaen, gyda rhodfa eang sy'n amgylchynu'r tŷ.

Mae cefn y tŷ wedi profi amryw o ychwanegiadau, gan gynnwys ramp i'r drws cefn a llwybr dianc metel, ac mae wedi'i ffensio yn rhannol. Gall gwella cefn y tŷ gynnwys y potensial i ymestyn, yn amodol ar sicrhau'r caniatâd cynllunio angenrheidiol.

Mae'r coed a'r dail yng nghefn ac ochr y tŷ wedi gordyfu, a gallai gwaith clirio ddarparu mwy o le ar gyfer tirlunio a pharcio.

I'r cefn mae garej unllawr ar wahân gyda mynediad ar wahân i Heol Gordon. Mae hyn yn cynnig potensial datblygu yn y dyfodol, yn amodol ar gynllunio.



Gwedd Flaen

# LLAWR GWAELOD


Mae cyntedd trawiadol yn ganolog i'r prif risiau mawreddog, sy'n darparu mynediad i ystafell fwyta ac ystafell groeso, gyda mannau derbyn pellach gerllaw.

Yng nghefn y llawr gwaelod mae cegin fasnachol wedi'i ffitio'n llawn, ochr yn ochr â mynedfa hanesyddol ar gyfer masnachwyr, ac ystafell dderbyn fawr, a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer seremonïau ffurfiol.

Mae llawer o nodweddion gwreiddiol i'w gweld ledled yr eiddo.



Ystafell Groeso



Prif Risiau



Ystafell Fwyta



Ystafell Achlysur



Cegin


# LLAWR CYNTAF

Mae'r llawr cyntaf yn cynnwys hen ystafell yr Arglwydd Faer sy'n cynnwys ystafell wely gysylltiedig, lolfa ac ystafell groeso. Mae dwy brif ystafell wely en-suite arall ym mlaen y tŷ. Yn arwain oddi ar y prif pen grisiau mae cegin fechan siâp L, ystafell wely fach gydag en-suite, yn ogystal â'r grisiau i'r atig a mynedfa'r masnachwyr.

I'r cefn mae dwy "adain" arall. Mae'r adain i'r gogledd yn cynnwys dwy ystafell wely en-suite lai, wrth i'r adain arall gynnwys tair ystafell, y mae un ohonynt yn cael ei defnyddio fel cegin gydag ystafell ymolchi fewnol a thoiled ar wahân.



Ystafell wely'r Arglwydd Faer



Prif Neuadd



Prif Ystafell Wely



Grisiau



Lolfa'r Arglwydd Faer


# ATIG AC ISLAWR

Mae'r llawr uchaf, sef yr atig, lle'r oedd y gweision yn byw yn y tŷ gwreiddiol, yn cynnwys wyth ystafell a dwy ystafell ymolchi.

Mae'r islawr yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel swyddfeydd a chyfleusterau storio. At ei gilydd, mae chwe ystafell swyddfa/storio fwy, casgliad o fannau llai, toiled, cwpwrdd trydanol ac ystafell foeler fawr.



Golygfa o'r Cefn



Golwg o’r Awyr



Golygfa dros y Plasty tuag at ganol y ddinas



Swyddfa’r Islawr



Ystafell yr Atig



Ystafell Fwyta



Gwedd Flaen

# Y CYFLE

## Addasu

Mae oedran, lleoliad a chyflwr yr eiddo yn golygu ei fod yn gyfle addasu gwych, yn amodol ar sicrhau'r caniatâd cynllunio angenrheidiol. Byddai'n addas ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddiau amgen.

Er enghraifft, byddai ei hanes, ei gynllun a'i leoliad yn ei wneud yn addas iawn ar gyfer gwesty bwtîc, gan gynnig gwasanaeth unigryw sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei danwasanaethu ym marchnad Caerdydd. Fel arall, gellid ei ddychwelyd i'w ddefnydd gwreiddiol fel cartref preifat, neu ei addasu'n anheddau lluosog. Yn wir, cynlluniwyd y tŷ i gael ei rannu'n ddwy pe bai plant James Howell yn parhau i fyw yno. Mae agosrwydd yr eiddo at gyfleusterau dysgu, fel Ysgol Kings Monkton a Phrifysgol Caerdydd yn golygu ei fod mewn lle da ar gyfer defnydd addysgol, wrth i'r adeilad hefyd fenthyg ei hun at ddefnyddiau meddygol, gofal neu feithrinfa.

## Datblygu Pellach

Yn amodol ar sicrhau'r caniatâd cynllunio angenrheidiol, mae lle i ymestyn, yn enwedig i'r cefn, neu fanteisio ar y garej a'i fynedfa ffordd ar wahân.

## Awdurdod Lleol

Cyngor Caerdydd.
Neuadd y Sir, Glanfa'r
Iwerydd, Caerdydd,
CF10 4UW

Ffôn: 029 2087 2087

## Deiliadaeth a Theitl


Mae'r eiddo wedi'i gofrestru dan deitl rhif CYM415118 ac mae'n eiddo rhydd-ddaliadol (teitl llwyr).

## Cynigion


Gwahoddir cynigion ar gyfer gwerthiant rhydd-ddaliadol ar sail ddiamod.

Bydd cynigion yn cael eu hystyried yng nghyd-destun meini prawf sgorio, y bydd eu manylion wedi'u cynnwys yn y pecyn technegol.


**Y Plasty, Caerdydd,**
**Ardal fewnol gros y Prif Dŷ = 16,445 troedfedd sgwâr/ 1,528 metr sgwâr**





**Islawr**




**Llawr Gwaelod**




**Llawr Cyntaf**




**Ail Lawr**

**AT DDIBENION ENGHREIFFTIOL YN UNIG - NID YW'R CYNLLUN I RADDFA**

Brasamcanion yn unig yw lleoliad a maint y drysau, y ffenestri, yr offer a'r nodweddion eraill.

:::: ==:: Yn dynodi uchder pen cyfyngedig

© ehouse. Gwaherddir atgynhyrchu heb awdurdod. Cyf. Lluniad dig/8645725/SS

**Y Plasty** Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UN



## GOSODIADAU A FFITIADAU

Mae'r holl beiriannau, gosodiadau a ffitiadau sefydlog i'w cynnwys yn y gwerthiant.

## TPY

Mae'r eiddo yn derbyn sgôr o 93 D. Mae copi o'r TPY ar gael yn y Pecyn Technegol.

## TAW

Rydym wedi cael gwybodaeth nad yw’r eiddo wedi’i ethol ar gyfer TAW.

## GWELD YR EIDDO

Drwy apwyntiad yn unig gyda’r asiant gwerthu, Savills.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae Parc Technegol ar gael i bartïon â diddordeb ar gais, a fydd yn cynnwys:

- Lleoliad a chynlluniau safle
- Gwybodaeth am y teitl
- TPY
- Cynlluniau Llawr
- Adroddiadau Asbestos
- Asesiadau Risg Tân
- Ffotograffau Rhestriad Cadw
- Dogfen Meini Prawf Marchnata

## MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Ted Harding-Brown**

Cyfarwyddwr Cyswllt
ted.hardingbrown@savills.com

07779 912501

**Matt Allen**

Syrfëwr matt.allen@savills.com
07816 184116

**Will Hudson**

Syrfëwr Graddedig
will.hudson@savills.com

07779 402754


### HYSBYSIAD PWYSIG


Mae Savills, eu cleientiaid ac unrhyw asiantau ar y cyd yn rhoi gwybod am y canlynol:

1. Nid ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warantau mewn perthynas â'r eiddo naill ai yma neu yn rhywle arall, naill ai ar eu rhan eu hunain neu ar ran eu cleient neu fel arall. Nid ydynt yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddatganiad y gellir ei wneud yn y manylion hyn. Nid yw'r manylion hyn yn rhan o unrhyw gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na ffeithiau.

2. Amcangyfrifon yw unrhyw ardaloedd, mesuriadau neu bellteroedd. Mae'r testun, y delweddau a'r cynlluniau ar gyfer arweiniad yn unig ac nid ydynt o reidrwydd yn gynhwysfawr. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan yr eiddo yr holl ganiatâd cynllunio, rheoleiddio adeiladu neu ganiatâd arall angenrheidiol ac nid yw Savills wedi profi unrhyw wasanaethau, offer na chyfleusterau. Rhaid i brynwyr fodloni eu hunain trwy arolygiad neu fel arall.

Atgynhyrchir mapiau’r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.
© Rhif trwydded hawlfraint y Goron 100022432 Savills (UK) Ltd, a chyhoeddir nhw at ddibenion nodi’n unig ac er y credir eu bod yn gywir, nid yw cywirdeb wedi'i warantu.

Dyluniwyd a lluniwyd gan adran farchnata Savills: 020 7499 8644 | 21.05.2025